OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 1503 (Cy. 153)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A40 (Cylchfan Tarell, Aberhonddu, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mehefin 2014* |
| *Yn dod i rym* | *6 Mehefin 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) a Chefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mehefin 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A40 (Cylchfan Tarell, Aberhonddu, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2014.

**Cyfyngiad**

**2.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar:

i. y darn o gefnffordd yr A470 yn Aberhonddu yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 200 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0796 i Ystad Ddiwydiannol Ffrwdgrech hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Chylchfan Tarell;

ii. y darn o gefnffordd yr A40 yn Aberhonddu yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Tarell hyd at bwynt 80 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y Gylchfan honno, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Tarell.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 4 Mehefin 2014

***R Morgan***

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.